



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

CYHOEDDIAD

# Gwybodaeth filio ardrethi annomestig: rhybudd preifatrwydd

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn esbonio pa wybodaeth rydyn ni'n ei chasglu, sut rydyn ni'n ei defnyddio, a sut rydyn ni'n ei gwarchod.

Cyhoeddwyd gyntaf: 11 Mawrth 2021

Diweddarwyd ddiwethaf: 11 Mawrth 2021

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/gwybodaeth-filio-ardrethi-annomestig-rhybudd-preifatrwydd-html-0> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

# Cynnwys

## Cyflwyniad

---

## Y data

---

## Sail gyfreithiol y prosesu

---

## Derbynyddion

---

## Defnyddio eich data

---

## Cadw data

---

## Eich hawliau

---

## Trosglwyddiadau mewnol

---

## Cwynion

---

## Manylion cyswllt

---

# Cyflwyniad

Rydyn ni'n cysylltu â chi gan ddefnyddio'r wybodaeth bersonol rydych chi wedi'i rhoi i Swyddfa'r Cabinet, sy'n cael sylw yn yr **hysbysiad preifatrwydd**. Pwrpas prosesu eich data personol yw casglu gwybodaeth am y mathau o gymorth rydych chi wedi nodi y byddech chi'n ei groesawu gan y Llywodraeth a'r manylion cyswllt sy'n angenrheidiol er mwyn i ni allu trosglwyddo'r wybodaeth berthnasol neu gysylltu â chi drwy e-bost neu dros y ffôn.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/gwybodaeth-filio-ardrethi-annomestig-rhybudd-preifatrwydd-html-0> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

# Y data

Byddwn yn prosesu'r data personol canlynol:

- eich enw cyntaf
- eich cyfenw
- cyfeiriad e-bost
- manylion cyswllt eraill (dewisol)
- ardal awdurdod lleol
- teitl swydd mewn perthynas ag etholiadau
- pan fyddwch chi'n cymryd rhan mewn arolwg, yn rhoi eich barn neu'n cyflwyno unrhyw ddata arall, ni fyddwn yn gofyn i chi am ddata categori arbennig yn yr arolwg

## Sail gyfreithiol y prosesu

Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data personol yw bod angen ei brosesu er mwyn cyflawni tasg sydd er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol sydd wedi'i freinio yn y rheolydd data. Yn yr achos hwn, mae hyn yn golygu prosesu a gweithredu ar y wybodaeth rydych chi'n ei rhoi a'r awgrym rydych chi'n ei roi ynghylch y gefnogaeth sydd ei hangen arnoch chi i recriwtio staff etholiadol a sicrhau lleoliadau etholiadol cyn etholiadau mis Mai 2021.

## Derbynyddion

Gan y bydd eich data personol yn cael ei storio ar ein seilwaith TG, bydd yn cael ei rannu â'n proseswyr data sy'n darparu gwasanaethau e-bost, ac yn rheoli a storio dogfennau.

Pan fydd eich ymateb chi i'n harolygon yn dangos eich bod wedi'ch lleoli yng Nghymru, byddwn yn rhannu eich ymatebion gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, ar ffurf y gallan nhw eu defnyddio. Bydd hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i gefnogi Swyddogion Canlyniadau ac Awdurdodau Lleol yng Nghymru, sydd wedi gofyn am gefnogaeth i recriwtio staff etholiadol a sicrhau lleoliadau

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://llyw.cymru/gwybodaeth-filio-ardrethi-annomestig-rhybudd-preifatrwydd-html-0> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

etholiadol cyn etholiadau mis Mai 2021. Bydd Llywodraeth Cymru yn trin eich data ar gyfer yr un diben, bydd yn cael ei gadw am yr un cyfnod o amser a bydd yn ei brosesu yn yr un modd a nodwyd yn yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn.

## Defnyddio eich data

Rydym yn cysylltu â chi drwy'r wybodaeth bersonol a ddarparwyd gennych i Swyddfa'r Cabinet a gwmpesir o dan yr **hysbysiad preifatrwydd**. Rydym yn defnyddio'r data yn eich ymateb i'r arolwg i brosesu a gweithredu ar y wybodaeth a roddwch a'r arwydd a roddwch o'r cymorth y gallai fod ei angen arnoch i recriwtio staff etholiadol a sicrhau lleoliadau etholiadol cyn etholiadau mis Mai 2021. Defnyddir y data hwn i'n galluogi i rannu manylion cyswllt perthnasol ymgeiswyr sydd wedi cydsynio i'w manylion cyswllt gael eu trosglwyddo i chi, gan eich galluogi i gysylltu â nhw am rolau etholiadol sy'n cefnogi etholiadau'r Comisiynydd Lleol, maerol a Throseddu ym mis Mai 2021.

## Cadw data

Byddwn ni'n cadw eich data personol cyhyd ag y byddwch yn dymuno derbyn gohebiaeth gan yr Is-adran Cofrestriadau Modern. Os byddwch chi'n ymateb i arolwg, byddwn yn cadw eich data ar ffurf y bydd modd ei defnyddio am flwyddyn o 22 Chwefror 2021.

## Eich hawliau

Mae gennych chi'r hawl i wneud y canlynol:

- gofyn am wybodaeth ynghylch sut mae eich data personol yn cael ei brosesu, a gofyn am gopi o'r data personol hwnnw
- gofyn i ni gywiro unrhyw wallau yn eich data personol yn ddi-oed
- gofyn i ni gwblhau unrhyw ddata personol anghyflawn, gan gynnwys drwy ddatganiad atodol
- mew'n rhai amgylchiadau (er enghraifft, pan fydd amheuaeth ynghylch cywirdeb), gofyn am gyfyngu ar brosesu eich data personol

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://llyw.cymru/gwybodaeth-filio-ardrethi-annomestig-rhybudd-preifatrwydd-html-0> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

- gwrthwynebu prosesu eich data personol

## Trosglwyddiadau mewnol

Gan fod eich data personol yn cael ei storio ar ein seilwaith TG, ac yn cael ei rannu â'n proseswyr data, mae'n bosib y caiff ei drosglwyddo a'i storio'n ddiogel tu allan i'r DU. Os felly, bydd yn destun amddiffyniad cyfreithiol cyfatebol drwy benderfyniad digonolrwydd neu drwy ddefnyddio Cymalau Contractau Enghreifftiol.

## Cwynion

Os ydych chi'n credu bod eich data personol wedi cael ei gamddefnyddio neu ei gam-drafod, gallwch chi gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth, sy'n rheoleiddiwr annibynnol. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad isod:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Swydd Gaer  
SK9 5AF  
Ffôn: 0303 123 1113  
E-bost: [casework@ico.org.uk](mailto:casework@ico.org.uk)

Ni fydd unrhyw gŵyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth yn rhagfarnu ar eich hawl i geisio gwneud yn iawn drwy'r llysoedd.

## Manylion cyswllt

Swyddfa'r Cabinet yw rheolydd data eich data personol. Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data unwaith y caiff y data eu trosglwyddo iddi. Manylion cyswllt y rheolyddion data yn Swyddfa'r Cabinet yw:

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://llyw.cymru/gwybodaeth-filio-ardrethi-annomestig-rhybudd-preifatrwydd-html-0> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cabinet Office  
70 Whitehall  
Llundain  
SW1A 2AS  
Ffôn: 0207 276 1234  
E-bost: [publiccorrespondence@cabinetoffice.gov.uk](mailto:publiccorrespondence@cabinetoffice.gov.uk)

Mae'r Swyddog Diogelu Data yn darparu cyngor annibynnol ac yn monitro defnydd Swyddfa'r Cabinet o wybodaeth bersonol.

Y cyfeiriad e-bost i gysylltu â Swyddog Diogelu Data'r rheolydd data yw [dpo@cabinetoffice.gov.uk](mailto:dpo@cabinetoffice.gov.uk)

Manylion cyswllt Llywodraeth Cymru yw:

Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ  
Ffôn: 0300 0604400  
E-bost: [customerhelp@gov.wales](mailto:customerhelp@gov.wales)

Y cyfeiriad e-bost i gysylltu â Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru yw [DataProtectionOfficer@gov.wales](mailto:DataProtectionOfficer@gov.wales)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://llyw.cymru/gwybodaeth-filio-ardrethi-annomestig-rhybudd-preifatrwydd-html-0> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

## Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we [Gwybodaeth filio ardrethi annomestig: rhybudd preifatrwydd](#) a lawrlwythwyd.

Ewch i <https://llyw.cymru/gwybodaeth-filio-ardrethi-annomestig-rhybudd-preifatrwydd-html-0> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://llyw.cymru/gwybodaeth-filio-ardrethi-annomestig-rhybudd-preifatrwydd-html-0> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).